# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 19.11.09

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams (Cadeirydd); Robert Anderson; Ieuan Roberts.

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu) a Barbara Owen (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriad:** Y Cyng. Dewi Llewelyn (Aelod Lleol)

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Ymgeiswyr:**
**Ar ran Shahin:** Shahin Ali (Perchennog); Shojjad Ali a Mohmmed Ali; James Anderson(Cyfreithiwr)

**Ar ran yr Heddlu: :** Rhingyll Bill Coppack; Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu, Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran y gwrthwynebwyr:** Mr Gwyn Hughes, Clerc, Cyngor Dinas Bangor

## 1. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO SHAHIN KEBAB HOUSE, 368 STRYD FAWR, BANGOR

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais ar ran Shahin Kebab House, 368 Stryd Fawr, Bangor, i wyro trwydded yr eiddo i ganiatau gwerthiant bwyd poeth o 23.00 hyd at 03.00 Dydd Sul i Dydd Iau, a 23.00 hyd at 03.30 Dydd Gwener a Dydd Sadwrn, gyda'r eiddo yn cau am yr un amser. Yn ôl y drwydded gyfredol mae hawl gan yr eiddo i werthu bwyd poeth hyd at 02.00 ar ddyddiau Sul i Iau a hyd at 02.30 ar Dydd Gwener a Dydd Sadwrn.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, i dderbyn sylwadau gan yr Heddlu, e-bost gan yr Aelod Lleol, llythyrau ar ran Cyngor Dinas Bangor ac oddiwrth nifer o drigolion cyfagos, i gyd yn datgan gwrthwynebiad i'r oriau ychwanegol.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd i ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu

ii. Gwahoddwyd yr Ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais;

iii. Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau.

iv. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

v. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

vi. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

vii. Cafodd yr Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Wrth ddal ar y cyfle i gefnogi'r sylwadau ddatganwyd yn y llythyr oddiwrth yr Heddlu, adroddodd y Rhingyll Bill Coppack i swyddogion yr heddlu ddatgan pryder oherwydd y nifer o achosion a ddaeth i'w sylw o'r Rheolwyr yn gwerthu bwyd poeth tu allan i oriau'r drwydded. O ganlyniad i hyn, trefnwyd cyfarfod gyda'r perchennog i egluro amodau'r drwydded, ond ni welwyd gwelliant, ac fe drefnwyd cyfarfod pellach rhwng y perchennog, swyddog yr heddlu a swyddogion Trwyddedu ar 13 Gorffennaf eleni, sef yr hyn a elwir 'Stage 2' er mwyn pwysleisio unwaith eto amodau'r drwydded a'r oblygiadau o beidio â chydymffurfio. Serch hyn, ar Ddydd Iau, 24 Medi eleni yr oedd yr eiddo ar agor hyd at 03.00, ac eto ar 31 Hydref, pan welwyd rhwng tri-ar-ddeg a phymtheg o gwsmeriaid yn prynu bwyd, er bod y Rhingyll yn sefyll tu allan mewn lle amlwg. Mae'n fwriad gan swyddogion yr heddlu, o ystyried y sefyllfa, i gyflwyno cais i adolygu'r drwydded trwy gwtogi'r oriau.

Ychwanegodd y Rhingyll bod yr heddlu wedi cael cytundeb gwahanol asiantaethau o fewn y ddinas ynglyn â chynllun cyffredinol fyddai'n gymorth i gadw'r heddwch ar y Stryd Fawr a gwarchod hawliau'r trigolion lleol. Rhan o'r cynllun hwnnw yw gweld drysau pob eiddo gwerthu bwyd yn cau am 02.30 fel bod y cwsmeriaid hynny'n gadael y ddinas am adre cyn i fynychwyr y clybiau nos ddod allan i'r strydoedd. Dau o brif ystyriaethau'r trafodaethau oedd egwyddorion y Ddeddf Trwyddedu a gwarchod hawliau'r trigolion lleol. Adroddodd, pe byddai'r Is-bwyllgor yn caniatau'r cais, y byddai'r heddlu wedyn yn argymell amodau llym, ond eu bod yn gwrthwynebu'r cais yn llwyr am y rhesymau a nodwyd.

Cafodd cyfreithiwr y perchennog gyfle i ymateb i sylwadau'r heddlu, ac adroddodd:

- i'r cwmni gynnal wyth noson yn ystod Medi a Hydref eleni dan drwydded TENS pan ganiatawyd gwerthu bwyd poeth hyd at oriau ychwanegol, ac na fu problemau o gwbwl yn ystod yr achlysuron hyn.
- bod y cwmni yn fodlon cyflogi swyddogion ar y drws yn ystod yr oriau mân i reoli ymddygiad cwsmeriaid
- bod y perchnogion yn credu y byddai cau'r drysau ynghynt (sef ar oriau'r drwydded) yn ychwanegu at broblemau ymddygiad trwy droi cwsmeriaid i ffwrdd
- y byddai'n deg caniatau yr un oriau ag eiddo tebyg sydd ar y Stryd Fawr
- nad oes tystiolaeth ddigonol dros wrthod y cais ar sail Rhwystro Trosedd ac Anrhefn nac ychwaith ar sail Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- y gwneir y mwyafrif o elw'r cwmni yn ystod yr oriau hwyraf
- bod y perchennog yn fodlon gofalu am glirio sbwriel o fewn 15m i'r ddwy ochr tu allan i'r brif fynedfa

Ychwanegodd y cyfreithiwr i'r cwmni gynnig oriau diwygiedig i'r rhai nodwyd yn y cais, gan gynnwys cyflogi swyddogion ar y drws ar gyfnodau penodol.

Wrth gefnogi sylwadau aelodau Cyngor y Ddinas, adroddodd y clerc i dderbyn amryw o lythyrau gan drigolion lleol yn gwrthwynebu'r cais oherwydd y swn, y sbwriel ac ymddygiad afreolus sydd eisoes yn deillio o siopau bwyd sydd ar agor yn hwyr y nos. Mae'r cwsmeriaid yn aml yn feddw, yn sâl ac yn achosi niwsans cyhoeddus trwy eu hymddygiad, ac mae'r trigolion yn pryderu am ymestyn hyn pe caniateir yr oriau ychwanegol. Mae aelodau'r Cyngor hefyd yn awyddus iawn i gefnogi ymdrechion yr heddlu yn eu hymgyrch i gadw rheolaeth ar ymddygiad cwsmeriaid y tafarndai, y clwbiau nos a'r siopau bwyd hwyr er lles trigolion y ddinas.

Gadawodd yr ymgeiswyr, cynrychiolwyr yr Heddlu, y Rheolwr Trwyddedu, a'r gwrthwynebwyr y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD gwrthod cais Shahin Kebab House i wyro'r drwydded bresennol**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

## 2. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO SUBWAY, UNED 25, CANOLFAN DEINIOL, BANGOR

**Yn bresennol ar ran Subway:** Kathleen McMyler; Thomas Pritchard (Rheolwyr Subway)

**Ar ran y gwrthwynebwyr:** Mr Gwyn Hughes, Clerc, Cyngor Dinas Bangor

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais ar ran Subway, Uned 25, Canolfan Deiniol, Bangor, i wyro trwydded yr eiddo i ganiatau gwerthiant bwyd poeth o 23.00 hyd at 02.30 bob dydd o'r wythnos a cherddoriaeth wedi ei recordio o 07.45 – 02.30 Dydd Llun hyd at Ddydd Sadwrn ac o 10.00 hyd at 02.30 ar Ddydd Sul, gyda'r eiddo yn cau am 02.30 bob nos. Mae'r drwydded bresennol yn caniatau darparu lluniaeth hwyr o 23.00 hyd at 02.00 Dydd Mercher, Gwener a Sadwrn gyda cherddoriaeth wedi ei recordio o 07.45 hyd at 0.200 ar yr un dyddiau, ac oriau agor yr eiddo o 07.45 hyd at 20.00 Dydd Llun, Mawrth ac Iau, ac o 07.45 hyd at 02.00 ar Dyddiau Gwener a Sadwrn.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, i dderbyn llythyr ar ran Cyngor Dinas Bangor yn datgan gwrthwynebiad i'r oriau ychwanegol ar sail swn yn hwyr y nos, niwsans cyhoeddus ac ychwanegu at broblem sbwriel.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd i ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu

ii. Gwahoddwyd yr Ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais;

iii. Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau.

iv. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

v. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

vi. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

vii. Cafodd yr Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Wrth gefnogi sylwadau aelodau Cyngor y Ddinas, adroddodd y clerc bod y trigolion cyfagos yn gwrthwynebu'r cais oherwydd y broblem sydd eisoes yn bodoli oherwydd swn a sbwriel. Mae sbwriel yn broblem fawr o ganlyniad i gwsmeriaid Subway luchio papurau a bocsys y bwyd ar y ffordd tu allan, ac mae'r safle gerllaw safle aros tacsis, ac felly mi fyddai ymestyn yr oriau yn ychwanegu at swn cwsmeriaid yn cychwyn am adref. Ychwanegodd, oherwydd bod Swyddfa'r Cyngor gerllaw, bod staff y swyddfa yn gorfod clirio'r sbwriel ambell i fore wrth gyrraedd y swyddfa.

Cafodd rheolwr yr eiddo gyfle i gefnogi'r cais, ac adroddodd eu bod yn awyddus i gael yr un telerau â sefydliadau eraill tebyg yn y Stryd Fawr, er na ragwelir y byddent yn defnyddio'r oriau ychwanegol bob dydd o'r flwyddyn. Ychwanegodd bod staff yr eiddo'n awyddus iawn i gydweithio gyda'r heddlu trwy reoli ymddygiad cwsmeriaid a chasglu unrhyw sbwriel sydd yn cael ei adael bob nos. Nododd nad oedd unrhyw achos o Drosedd ac Anrhefn wedi ei gofnodi mewn cysylltiad â'r eiddo, ac felly nad ystyriwyd cyflogi staff yn benodol i gadw rheolaeth ar gwsmeriaid.

Gadawodd yr ymgeiswyr, y Rheolwr Trwyddedu, a'r gwrthwynebydd y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Wrth drafod y cais, nodwyd na ragwelir problem o ganlyniad i ganiatau'r cais.

**PENDERFYNWYD caniatau trwydded Subway, Uned 25 Canolfan Deiniol, Bangor fel a ganlyn:**

**i) Darparu lluniaeth yn hwyr y nos o 23.00 hyd at 02.30 bob dydd o'r wythnos**
**ii) Yr eiddo i fod ar agor o 07.45 hyd at 02.30 Dydd Llun hyd at Ddydd Sadwrn ac o 10.00 hyd at 02.30 ar Ddydd Sul**
**iii) Cerddoriaeth wedi ei recordio o 07.45 hyd at 02.30 Dydd Llun hyd at Ddydd Sadwrn ac o 10.00 hyd at 02.30 ar Dydd Sul**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai llythyr yn cael ei anfon allan o fewn pum diwrnod gwaith yn rhoi canlyniad yr Is-bwyllgor i'r Ymgeiswyr, ac hefyd o hawl y rhai gymerodd ran yn y cyfarfod i apelio am ddyfarniad yr Is-bwyllgor.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 12.40pm